

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod 12fed o Ionawr 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Daniel Williams	Nerys John	
Lena Ashley	George Smith	
Iestyn Harris	Gruff John	
Aled Emyr	Yasmin Khan	
Peter Simpson		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD	
1.1	Dymunwyd flwyddyn newydd dda a chroesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Ionawr y Cyngor gan y Cadeirydd Daniel Williams. Ymddiheuriadau: Mair Bebb Jones, Casi Jones a Sarah Riley	
2.0	ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR	
	Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig, gweler atodiad 1.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	COFNODION	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod misol 8 fed o Ragfyr 2015. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir a'u harwyddo.	
5.0	MATERION YN CODI	
5.1	Parc Bach Cychod - diweddariad ar y fenter gan y Cyngorydd Nerys John a dangoswyd llun o'r casgenni a'r cychod bach. Roedd pawb yn falch iawn o'r gwaith a diolchwyd i Nerys John a'r cynghorwyr eraill am eu gwaith.	
5.2	Toiledau - Cyflwynodd y Cadeirydd Daniel Williams y wybodaeth ddiweddaraf am doiledau'r pentref a chafwyd trafodaeth ynglŷn â'r fargen oedd ar y bwrdd oddi wrth y Cyngor Sir. Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn cymryd perchnogaeth o'r toiledau newydd a gwneud cais i Gyngor Gwynedd eu bod y rhoi teclyn talu fel rhan o'r fargen os byddai'r gost yn un rhesymol. Y Clerc i adael Cyngor Gwynedd wybod hyn.	CLERC
5.3	Cysgodfan Bws - Cafwyd gwybodaeth bod rhan o gysgodfan bws ger yr eglwys angen gwydr. Y Cadeirydd i gael pris gan Mr D E Williams.	
5.4	Hysbysfyrddau - Dim i'w ddiweddarau	
5.5	Llifogydd - cafwyd trafodaeth hir ynglŷn â'r llifogydd diweddar ac adroddwyd bod cynllun llifogydd y Cyngor wedi gweithio yn dda.	
5.6	Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft - cyflwynodd y Cyngorydd Lena Ashley	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	adroddiad cynhwysfawr ar gynnwys y draft a dywedodd dylai'r cyngor anfon sylwadau fel a ganlyn: i. Ffaffrio tri chyngor er mwyn gwarchod a hybu'r Gymraeg. ii. Angen cael gwybod mwyn ynglŷn â beth fyddai'r buddiannau pwyllgor i'r ardaloedd cymunedau. iii. Cefnogi cynghorau ieuenctid	
	Menai Strait Mussel bed consultation - mynychodd rhai cynghorwyr gyfarfod cyhoeddus ac oherwydd y wybodaeth cafwyd yno gwelwyd bod dim byd i'w boeni ynglŷn â'r gwalau.	
6.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD	
6.1	Cafwyd gwybodaeth ynglŷn â phris drws tan ar gyfer y neuadd (£355 & TAW). Mae angen trefnu amser ar gyfer ymweliad Kimberley Gulf ar gyfer gneud archwiliad.	CLERC
7.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL	
7.1	Cadarnhawyd gwariant Mis Rhagfyr.	
7.2	Cyllideb - cyflwynodd y Swyddog Ariannol y gyllideb ar gyfer 2016-2017. Cafwyd trafodaeth arni ond fe'u derbyniodd. Clustnodwyd y trosglwyddiad y neuadd ar gyfer talu costau yn ymwneud a'r neuadd. Mae rhai eitemau heb bris pendant fel cysgodfan bws yn Aberpwl. (Atodiad 2)	
7.3	Praesept - cafwyd trafodaeth ynglŷn â chodi'r praesept a phenderfynwyd ei godi £5000 gyda'r effaith o £4.52 i bob cartref. (Atodiad 3)	
8.0	GOHEBIAETH	
	Dim	
9.0	ADRODDIAD Y CLOC	
9.1	Darllenwyd llythyr oddi wrth y pensaer at Cadw.	
10.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
10.1	C15/1294/20/CC - Ymgymryd â gwaith i 26 coeden sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed - Dockwood, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QX - DIM GWRTHWYNEBIAD	
10.2	C15/1351/20/LL - Codi estyniad cefn rhannol ddeulawr a modurdy arwahan - 4 Tyn Lon, Y Felinheli LL56 4JT - DIM GWRTHWYNEB	
10.3	C15/1214/20/LL - estyniad i sied bresennol i gynnwys cyfleuster golchi dillad mewn perthynas â'r gwesty, a chodi ffens bren 2 medr o uchder i greu compownd - Plas Dinorwig, Ffordd Siabod, Y Felinheli LL56 4XA - DIM GWRTHWYNEBIAD	
11.0	ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT	
	Dywedodd y Cynghorydd Peter Simpson ei fod wedi ymweld â'r fynwent.	
12.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Dim i'w adrodd	
13.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
13.1	Cafwyd adroddiad bod angen gwneud gwaith cynnal i ffens llwybr Cerrig yr Afon. Dywedodd y Cadeirydd y byddai yn rhoi cymorth i'r Cynghorydd George Smith y Sadwrn canlynol gyda'r gwaith.	GS DW
14.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
14.1	Gweler 5.5	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:15 yn yr hwyr.	
Llofnod:		Dyddiad:

Atodiad 1

Adroddiad Cynghorydd Sian Gwenllian – Rhagfyr 2015

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA!

Bydd Ffair yn cael ei chynnal yn Y Faenol ar Ddydd Sul, Rhagfyr 13 o 11am - 7pm. Bydd yr elw o ffioedd stondinau, raffl, a maes parcio yn mynd i 'Rwydwaith Ffoaduriaid Gogledd Cymru' ac yna yn cael ei wario ar brynu esgidiau ar gyfer ffoaduriaid ar ynysoedd Leros, Lesbos a Chios. Bydd amrywiaeth a wahanol stondinau traddodiadol, gan gynnwys busnesau lleol a chrefftwyr. Os gennych ddiddordeb mewn cael standin yn Ffair Nadolig Y Faenol, cysylltwch efo kristinabanholzerphotography@hotmail.com neu mail@drzigs.com. Bydd cost o £7 ar gyfer pob standin.

Byddai'r Cyngor Cymuned yn falch o dderbyn ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth elusenau a cymdeithasau'r pentref erbyn y 31ain o Ragfyr 2015. Dylai unrhyw gais (ffurflen gais ar wefan y Cyngor) gael ei anfon ynghyd a chopi o daflen adroddiad ariannol blynyddol y gymdeithas at y Clerc Heather Lynne Jones, 3 Maes Padarn, Llanberis, Gwynedd, LL55 4TE clercfelinheli@aol.com

1)Cais i greu pysgodfa cerrig gleision ar y banc tywod gyferbyn a'r Felinheli – rhwng Castell Gwylan a Moel y Don. Mae nifer yn bryderus am effaith posib hynny i hwylwyr, pysgotwyr a cherddwyr. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ac yn anffodus, doedd y gymuned ddim yn ymwybodol, o'r bwriad tan yn hwyr iawn yn y dydd. Fodd bynnag, rwyf mewn trafodaethau efo'r cwmni ac mae nhw wedi cytuno dod i'r pentref i egluro yn union beth sydd dan sylw. Gobeithio bydd hynny yn digwydd yn fuan yn y flwyddyn newydd. Rwyf o blaid datblygu'r diwydiant bwyd mor yn yr ardal, ond nid ar draul buddiannau'r bobl leol.

2)Llwybr ger yr Afon Heulyn : bu raid cau y llwybr gan fod rhan o wal y Faenol wedi dymchwel. Diolch i Gadeirydd y Cyngor Cymuned am weithredu yn gyflym. Rwyf yn disgwyl adroddiad gan y swyddog llwybrau ar y camau fydd yn cael eu cymryd i wneud yn siŵr fod y llwybr yn cael ei ail-agor. Mae Stepiau Cei yn dal ar gau ond mae'r Cyngor wedi cytuno i adeiladu bwres i ddiogelu'r wal.

3)Y Wal For: Ar ôl cael gwybodaeth gan etholwr, gofynnais i swyddogion Cyngor Gwynedd edrych ar gyflwr y wal for ar Lan y Mor. Cefais adroddiad yn ôl gan y swyddog morwrol a gan Uned Amddiffyn yr Arfordir sy'n dweud nad yw'r sefyllfa yn achosi gormod o bryder ar hyn o bryd ond y byddan nhw yn parhau i fonitro y wal.

4)Rhyd Y Fenai: Bum yn helpu etholwyr oedd yn pryderu y byddai y canllawiau newydd yn rhwystro mynediad at erddi a leiniau dillad. Cafwyd cytundeb gyda CCG ac mae'r canllawiau newydd yn eu lle. Rwyf yn pwysu am ragor o waith gan gynnwys trwshio'r stepiau, wyneb newydd i'r llwybr a mesurau diogelwch ar y balconi.

5)Ailgylchu: Mae'r Cyngor wedi symud at drefn newydd o gasglu deunydd ailgylchu/bwyd gwastraff bob wythnos a gweddill y gwastraff o'r biniau gwyrdd pob 3 wythnos. Nid oes llawer o broblemau wedi codi efo hyn. Mae'r Cartgylchu newydd wedi ei ddosbarthu i dai sydd yn addas ar gyfer eu defnyddio. Nid yw'r cyngor yn ystyried fod Stryd Menai a Stryd Bangor yn addas ar eu cyfer ond gall unigolion sy'n byw yno, neu mewn mannau eraill sydd heb gael y cart, wneud cais i gael un. Bydd Tan y Maes yn cael rhai yn y flwyddyn newydd. Dylid anfon at ailgylchu@gwynedd.gov.uk Neu ffonio Galw Gwynedd ar 01766 771000.

- 6)Llwybr Rowen: mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau fod y tirlfeddianwyr yn ardal y llwybr wedi cytuno i'r bwriad o wella'r llwybr cyn iddo gael ei fabwysiadu yn ffurfiol fel llwybr cyhoeddus gan y Cyngor. Deallaf fod y gwaith i'w wneud yn fuan yn 2016.
- 7)Llwybr yr Arfordir : mae'r cynllun yn symud yn ei flaen gyda gwaith cyfreithiol i gael caniatâd y gwahanol berchnogion tir. Byddwn i gyd yn falch o weld y llwybr yn agor yn swyddogol – cyn yr haf nesaf gobeithio.
- 8)Grid cenedlaethol – mae'r ymgynghoriad am ddod a pheilonau i Bentir ar y tir mawr yng nghyffiniau Faenol/Nant y Garth/Treborth yn cau ar Rhagfyr 16. <http://www.cysylltiadgogleddcymru.com/>
- 9)Gyda chefnogaeth Grŵp Cynghorwyr Plaid Cymru rwyf wedi cyflwyno cynnig fydd yn cael ei drafod gan Cyngor Gwynedd ar Rhagfyr 10fed. Dyma'r geiriad:
Mae Cyngor Gwynedd yn datgan gwrthwynebiad chwyrn i bolisiâu ariannol y Trysorlys am eu bod nhw'n taro'r rhai mwyaf anghenus, yn chwalu'r gwasanaethau cyhoeddus ac yn ein gorfodi ni fel pob Cyngor i wneud toriadau enbyd fydd hefyd yn effeithio yn sylweddol ar yr economi leol. Nid toriadau CYNGOR GWYNEDD yw'r toriadau ond toriadau'r Toriaid ; rydym yn ERBYN yr ideoleg sy'n gyrru'r toriadau, ond rydym yn ceisio gweithredu mor deg a thryloyw a phosib o dan amgylchiadau erchyll. Er gwaethaf hyn rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol dros y sir ac yn awyddus i greu llwyddiant i'r dyfodol.
- 10)Mae Uned Mamolaeth Ysbyty Gwynedd yn ddiogel am y tro ond mae pryder y bydd yn colli gwasanaeth ymgynghorwyr yn y tymor hir wrth i Glan clwyd gael ei ddatblygu. Ymunwch a'r grŵp ymgyrchu Babis Bangor ar face-book.
<https://www.facebook.com/groups/1636463603269642/?fref=ts>
- 11)Hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus i Ken Brown sydd wedi gadael Cyngor Cymuned Y Felinheli ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth fel Cadeirydd a chynghorydd. Diolch iddo am ei holl waith di-flino dros y pentref. Yn ddiweddar llwyddodd o gael arwyddion newydd Croeso i'r Felinheli i bob pen o'r pentref. Diolch hefyd a Pat Jones sydd wedi ymddeol o'r cyngor ar ôl cyfnod hir ac i Louise Hughes am ei gwaith dros drigolion Y Wern. Croeso i'r aelodau newydd a phob lwc i Cyng. Daniel Williams y Cadeirydd newydd. Edrychaf mlaen at gyd-weithio efo chi gyd er lles y pentref.

Atodiad 2

Ardal y cychod/ boat area

Y gobaith ydion i wneud yr ardal yma yn saffach ar gyfer plant sydd yn chwarae yn yr ardal ac i stopio ceir (sydd yn ddim byd i wneud efo'r cychod) rhag troi rownd yn yr ardal yma. Fellu potiau weddol fawr na fedr eu symyd yn rhy hawdd (a cael eu dwyn)

The aim is to make the boat area safer for the children playing in the area and to stop cars (which are not associated with the boats) from turning around in this area. So – plant containers which are fairly large that cannot be moved too easily (and be stolen)

3 Large Wooden and reinforced Half barrel containers would cost £28.99 each
£86.97

(gwelwyd rhai plastic hefyd ond roedd rhain yn ryfeddol o ddurd o gymharu gyda ansawdd y rhain)
(Some plastic containers were seen but were not as good value – these are an 'end of line' product in Stermat)

Compost tua/approx £15
Planhigion medr gwrthsefyll gwynt y mor ac hefyd sydd yn dioddef sychder yn dda ac hefyd yn llenwi y potiau yn weddol hawdd/

plants that do well in sea air, which tolerate dry weather fairly well and which fill the pots relatively easily
£50

Is gyfanswm/ sub-total
£151.97

Ochor y ffordd i'r ffens sydd yn rhedeg hyd y cae chwarae/The side of the the fence running the length of the play area and on the road side of that fence

Mae CC Felinheli wedi bod yn siomedig na fu ymgynghoriad rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned ynghylch y math o ffens i roi fyny. Rwan mae o yn ei le, efallai bod modd gwella ei edrychiad gyda ychydig o flodau a thyfiant. Mae gosod gwelyau blodau yn well oherwydd nad oes modd eu cario i ffwrdd gan rhywun sydd yn eu ffansio!

Mae dau awgrym ac efallai bod modd cael cyfuniad o'r ddau – sef i blannu planhigion dringo i dyfu i fyny'r ffens ac hefyd i osod gwelyau blodau. Rydym wedi mesur a gweld buasai 'sleepers' yn neud y gwaith yn dda a buasai 5 gwely yn edrych yn dda ar gwahanol leoliadau ar hyd y ffens gyda planhigion dringo rhyngddynt.

Felinheli CC have expressed our disappointment in the past because of the lack of consultation from Gwynedd CC re the rather ugly fence around the play area. Perhaps we can improve the situation with some plants and flowers. Better to have flower beds that cannot be carried away like containers.

2 proposals- and probably a combination of the 2 – to plant climbers to 'decorate' the fence and a series of 5 flower beds along the length of the fence running parallel to the road and outside the play area.

'Sleepers' i greu 5 gwely blodau/ to create 5 raised flower beds

Sleepers 're-claimed' 125x250x2590 £29.84 +VAT yr un angen 10 needed £298.40 + vat

Neu Sleepers newydd wedi eu trin/OR New treated sleepers

100x200x2400 £20.68 + VAT yr un/each £206.80 + vat

Compost tua/approx £50

Planhigion a Bylbiau/Plants and bulbs tua/approx £250

Ymyl i warchod y planhigion dringo am gyfnod/ edging to protect the climbers until well established
Tua/approx £30

Llafur/Labour?? Rydym yn teimlo y medrwn, gyda help gwirfoddolwyr wneud y gwaith yma ein hunain/ We feel that we can complete this work ourselves with the help of volunteers to cut and set the sleepers in place

Is-gyfanswm/ sub total £628.40(reclaimed sleepers) neu £536.80 (sleepers newydd)

Seilo/ gwaelod Nant Garth

Tir yn anwastad iawn ar gyfer creu gwely blodau/*very uneven ground for raised flower bed.*

Braidd yn hawdd i ddwyn container yn enwedig os 'da ni yn gosod y cafn blodau wrth arwydd newydd Y Felinheli. Gwell ei osod tua 5 medr i ffwrdd wrth yr arwydd 40 milltir yr awr. Angen i'r cafn bod o leiaf 60cms o uchder. Opsiwn arall yw i holi os oes gan rhywun hen gwch sydd ddim yn addas i'w defnyddio mwyach ac i ddefnyddio cwch yn lle cafn blodau.

Less opportunity for the container to be stolen if we place it near the 40mph sign (as opposed to the new Y Felinheli sign) Container needs to be at least 60cms high to make an impact. Another optionis to use a disused boat instead of a container.

Dim yn rhad ac yn gorfod prynu ar y we/ not cheap and would have to buy on the web. Eg.

www.terracegardener.co.uk Black fibrestone cube planters

60x60x60.....£169

Compost		£15
Planhigion/plants	tua/approx	£30
Is gyfanswm/sub-total		£214

Pen Caernarfon o'r pentref/Caernarfon end

Awgrymu gosod gwely blodau 1.25m₂ dros y ffordd i waelod allt Tafarngrisiau, lle mae'r pafin yn dod i ben a'r 'grass verge' yn cychwyn. Opsiwn arall yw i holi os oes gan rhywun hen gwch sydd ddim yn addas i'w defnyddio mwyach ac i ddefnyddio cwch yn lle creu gwely blodau.

Suggestion to place a 1.25m₂ flower bed over the road to the bottom of Tafarngrisiau where the pavement ends and the grass verge starts. Another optionis to use a disused boat instead of the flower bed.

2 sleeper 're-claimed' 125x250x2590	£29.84 +VAT yr un	£59.68 +vat
Neu/or 2 'treated'(newydd) 100x200x2400	£20.68 + VAT yr un	£41.36 +vat
Compost		£15
Planhigion/plants	tua/approx	£30
Is gyfanswm		£86.36 neu £104.68 +vat